

## **Grant Sefydlu ac Ehangu Gofal Plant** **2016/17**

Mae'r Grant Sefydlu ac Ehangu Gofal Plant yn fenter wedi'i ariannu gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar Gofal Plant a Chwarae Blaenau Gwent. Mae'r cynllun wedi'i gyflwyno i gefnogi sefydlu darpariaethau newydd neu'r rhai hynny sydd yn y broses o ehangu eu darpariaeth o fewn Blaenau Gwent, i ymateb i'r galw cynyddol am ofal plant.

### **Pwy sy'n cael gwneud cais?**

Unrhyw Feithrinfa Dydd, Grŵp Chwarae Cyn ysgol, Cylch Meithrin neu Glwb Ar ôl Ysgol sydd wedi'i gofrestru gyda CSSIW ac yn gysylltiedig â'r National Day Nurseries Association, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru, Professional Association for Childcare and Early Years neu Clybiau Plant Cymru Kids Club, o fewn Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent sy'n darparu gofal plant i rai rhwng 0-12 oed.

### **Swm y Grant**

- £500 taliad cyfradd unffurf ar gyfer rhai sy'n sefydlu, ynghyd â £50 i bob lle cofrestredig
- I rai sy'n sefydlu ac a gefnogir trwy Grant Dechrau'n Deg neu sy'n cymryd drosodd darpariaeth sydd eisoes yn bod, ni fydd taliad cyfradd unffurf ac fe fydd y swm i bob lle cofrestredig yn cael ei ostwng i £25.
- Caiff grantiau ehangu eu talu ar gyfradd o £25 i bob lle cofrestredig heb unrhyw daliad cyfradd unffurf.

### **Gwariant Cymwys**

- Prif Gyfarpar
- Rhent
- Costau Staffio
- Ffioedd Cofrestru
- Costau Hyfforddiant
- Adnoddau: paent, papur, teganau
- Gwaith Adeiladu ac Adnewyddu Allanol a Mewnol
- Pryniant trwy siec, cerdyn debyd neu daliad BACS ar-lein

### **Gwariant Anghymwys**

- Gwariant a wneir **CYN** dyddiad cynnig y Grant
- Stoc / Deunydd bwyriadwy
- TAW / Trethi
- Costau cyllido
- Yswiriant
- Ffioedd Cyfreithiol a Phroffesiynol
- Hurbwrcasu / Llogi ar Les
- Pryniant trwy Arian parod neu Gerdyn Credyd

### **Y Broses o wneud Cais**

- Rhaid ichi fod wedi'ch cofrestru neu yn y broses o gofrestru gyda CSSIW - bydd angen copi o'r dystysgrif
- Ynghyd â'r Ffurflen Gais, mae gofyn cael:
  1. 3 mis o gyfriflenni banc busnes, neu bersonol os nad oes cyfrif busnes.
  2. Rhagolwg Llif Arian
  3. Ymrwymiad i ymgymryd â Chynllun Gwella Ansawdd Blaenau Gwent

### **Taliad y Grant**

- Fe ddyroddir £500 i rai sy'n Sefydlu ar y cam cymeradwyo, gyda'r balans i ddilyn wedi derbyn dogfen gofrestru CSSIW.
- Ar gyfer Gofal Plant Sesiynol, caiff taliadau ar gyfer lleoedd gofal plant wedi'u cofrestru ond eu gwneud lle bo lleoedd yn cael eu cynnig. Os ydy darpariaeth yn dechrau gydag un sesiwn y dydd, yna fe gaen nhw'u talu am y lleoedd wedi'u cofrestru a gynigir yn y sesiwn hwnnw yn unig. Os sefydlir sesiwn ychwanegol yn ddiweddarach, yna fe roddir ystyriaeth i grant ehangu.
- Ni roddir ystyriaeth i Grant Ehangu lle bo darpariaeth wedi derbyn y grant hwn am yr un gwasanaeth o fewn y bum mlynedd ddiwethaf.

### **Pryd gewch chi wneud cais?**

Gellir dychwelyd ceisiadau ar unwaith neu mae'n rhaid eu derbyn erbyn Ionawr 31<sup>ain</sup>, 2017 fan bellaf a dylid eu dychwelyd at: Kara Kershaw, Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant, Tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Tîm Gwasanaethau Integredig, Canolfan Integredig Calon y Cymoedd, Stryd Fawr, Blaenau NP13 3BN

**D.S. Ni roddir ystyriaeth i geisiadau hwyr**